Ffilmio ar Flores!

Mai 6ed, 1991 oedd y tro cyntaf i mi lanio ar ynys Flores. Roeddwn yno fel athrawes Saesneg yn gweithio i VSO (Volunteer Service Overseas) a dyna lle oeddwn i fyw am y tair blynedd nesaf. Cefais gartref yn nhref Ruteng a daeth yn batrwm boreol i mi i deithio ar fy meic modur lan i'r mynydd lleol am bump o'r gloch y bore i weld yr haul yn codi gan syllu ar ynys fechan Mules i'r gogledd o Flores. Gwnes ffrindiau oes a chael profiadau bythgofiadwy. Rwy wedi llwyddo i ddychwelyd i Flores dair gwaith yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. Dychwelais yno am y tro cyntaf ym 1997 a daeth yr ail gyfle yn y flwyddyn 2000. Erbyn hynny roeddwn wedi arallgyfeirio yn fy mywyd gyda fy niddordeb wedi troi at fyd ffilm.

Mae ynys Flores yn rhan o arcapelago Indonesia, sef y clwstwr o ynysoedd uwchben Awstralia. Indonesia yw'r wlad sydd â'r mwyaf o Fwslemiaid yn y byd ond yn rhan ohoni y mae ynys fach Flores sydd yn 90% Gatholig.

Penderfynais ddefnyddio'r camera *swper 8* i ffilmio'r ardal Manggarai hon, sef yr hen fath o gamera roedd pobl yn ei ddefnyddio yn y chwedegau i ffilmio priodasau. Mae'r ffilm sy'n cael ei osod yn y camera yn 3 munud o hyd ac felly yn gwneud i chi fod yn fwy gofalus o beth ry'ch chi'n ei saethu, yn wahanol iawn i fideo. Felly es ati i ddal delweddau'r ardal. Bues yn byw mewn pentref diarffordd am bythefnos yn ffilmio bywyd pob dydd a rhai o'r traddodiadau lleol fel y Main Caci (sef 'whip duel') i ddathlu diwedd y cynhaeaf reis. Dychwelais gartref gyda llawer o luniau pert, ond dim sain. Ers hynny mae'r ffilm wedi bod yn casglu llwch ar y silff yn fy lolfa.

Tachwedd y 1af, 2007, ac roedd y trydydd dychweliad wedi ei drefnu i Flores. Roedd rhamant y camera swper 8 wedi hen adael fy ngwythiennau a chamera fideo mwy proffesiynol yn fy nwylo. Cael mis o wyliau ac ychydig o antur oedd fy mwriad.

Cyrhaeddais Ruteng i groeso cynnes gan Esi, a oedd yn arfer gweithio gyda mi yn ysgol St Fransiskus, ac roeddwn i aros yn ei chartref am y tair wythnos nesaf gyda'i gŵr Gone a'u plant Faldi a Frid. Es ati'n syth i gael gafael ar feic modur. Dechreuais fynd ati i drefnu fy antur gyda help Gone.

Y bwriad oedd ymweld ag Ynys Mules - yr ynys baradwysaidd, bell honno. Pan oeddwn yno yn y nawdegau doedd dim posib cyrraedd yr ynys oherwydd cyflwr gwael y lonydd. Ond nawr mi oedd hi'n bosib, er y byddai'n daith beryglus ar hyd lôn garegog a mwdlyd.

Un o'r newidiadau mwyaf rhyfeddol ar ynys Flores yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw dyfodiad y ffôn symudol. Wrth i ni yn y gorllewin ddatblygu'n technoleg yn raddol, maen nhw wedi neidio o ddanfon llythyr mewn lori i'r pentref nesaf i'r sefyllfa anghredadwy lle mae ffôn symudol gan bob teulu ym mhob pentref. Roedd hynny'n gwneud pethau dipyn yn haws i mi ar y daith hon! Llwyddodd Gone i ffonio aelodau'i deulu i gwrdd â mi mewn pentrefi gwahanol ar hyd y ffordd ac felly roedd gen i wely i gysgu ynddo pob nos a bwyd yn fy stumog ar hyd y daith. Fe gysylltodd hefyd â physgotwr lleol oedd i'm tywys i ynys Mules. Roedd y cyfan wedi ei drefnu.

Gadewais Ruteng yn gynnar yn y bore, gan ei bod yn adeg y Monsŵn ac roedd angen i mi gyrraedd pentref Narrang cyn canol dydd gan mai dyna oedd yr amser mwyaf gwlyb pob dydd. Roedd modd dilyn yr hewl fawr am yr ugain milltir cyntaf ac yna roedd rhaid troi i ddilyn lôn a elwir yn lôn Todo. Yn y 60au daeth offeiriad ifanc o wlad Pwyl o'r enw Pater Stanis i wneud ei waith cenhadol ym Manggarai a bu'n byw ym mhentref Todo. Yn y deunawfed ganrif, Todo oedd cartref brenhinoedd Manggarai. Nhw roddodd yr enw i'r ardal sef Mangga (angor) Rai (yn rhedeg). Yn ôl y son roedd ganddynt angor hud ar y llong a ble bynnag y byddai'r angor yn syrthio dyna lle'r oeddent i fyw. Roedden nhw'n byw mewn tai gwellt enfawr oedd yn medru cartrefu dros gant o bobl. Pan ddaeth Pater Stanis i'r ardal roedd y tŷ traddodiadol bron â syrthio a'r bobl yn hynod o dlawd. Prin iawn oedd eu cysylltiad â'r byd allanol gan fod eu hardal mor anghysbell. Llwyddodd Pater Stanis i adeiladu hewl gerrig o Ruteng i Todo. Hefyd llwyddwyd i adfer y tŷ traddodiadol, a dyna lle yr arhosais innau.

Cyrhaeddais am ddeuddeg a thad Gone yn aros amdanaf ac yn barod i'm harwain i'r tŷ traddodiadol. Roedd gen i anrhegion bychain er mwyn diolch i'r teulu brenhinol am eu caredigrwydd. Ers i Indonesia ennill ei hannibyniaeth, diddymwyd pwerau'r brenhinoedd yn Flores, ac felly mewn enw yn unig y maent yn frenhinoedd erbyn hyn. Roedd rhaid plygu pen wrth fynd mewn gan fod y drws yn isel ond yn bwrpasol felly er mwyn plygu pen i'r brenin. Ar ôl eistedd a thrafod mentrais ofyn am drwm roeddwn wedi clywed sôn amdano sef drwm wedi ei wneud o groen stumog menyw. Yn ôl yr hanes roedd brenin Todo a brenin o ardal gyfagos wedi syrthio mewn cariad â'r un fenyw. Er mwyn stopio rhyfel rhwng y ddwy ardal penderfynwyd lladd y ferch a defnyddiwyd croen ei stumog i wneud drwm. Roedd hyn oll wedi digwydd tua saith can mlynedd yn ôl. Ar ôl hir drafod daethpwyd â'r drwm allan, wedi ei osod mewn cwpwrdd gwydr, llychlyd a chefais yr hanes yn gyfan. Gan fod y traddodiad llafar mor gryf roeddent hyd yn oed yn medru dweud wrthyf mai teulu tad Gone oedd wedi lladd y ferch!

Y bore wedyn anelais at yr arfordir dros bontydd bambŵ sigledig a ffyrdd tyllog. Rhyddhad mawr oedd cyrraedd yr arfordir ac awel y môr. Yno, ym mhentref Dintor, roedd gŵr o'r enw Ashbar yn aros amdanaf a'i gwch pren yn barod allan ar y môr. Cyn hir cyrhaeddom y traethau gwyn, meddal gyda phlant yn aros amdanom.

Ynys Fwslemaidd yw Mules ac felly, er y gwres mawr, rhaid oedd cuddio pob darn o'r corff oni bai am y pen a'r breichiau. Cefais groeso anhygoel a chawl pysgod bendigedig. Ar ôl gwneud y fath ymdrech i gyrraedd yno, tasg ddigon anodd oedd ffilmio yn y gwres tanbaid. Roedd y nos hefyd yn boeth iawn. Roeddwn yn edrych ymlaen at gael oeri ychydig wrth olchi yn y man golchi cyhoeddus yn y pentref ond roedd yn anodd iawn gwneud hynny heb ddangos mwy na'r pigyrnau a'r breichiau!

Wedi'r daith i Mules, y nod nawr yw creu rhaglen ddogfen gan gyfuno'r ffilm fwyaf diweddar â'r lluniau *swper 8* i roi taw unwaith ac am byth ar y teithio i Flores.

Elin Morse